Seindorf Beaumaris Band

## Diolch o galon - Diolch i'ch haelioni arbennig, mae offerynnau newydd wedi cael eu prynu ar gyfer cerddorion ein bandiau iau. Bu i Bwyllgor y Cyfeillion gyfrannu £2,660 tuag at brynu chwech cornet a dau fariton.

Meddai'r Cyfarwyddwr Cerdd Gwyn Evans: "Rydan ni mor ddiolchgar i Gyfeillion y Band am eu cyfraniadau hael. Mae'r gefnogaeth ym amhrisiadwy. Roedd rhai o'r offerynnau yn hen iawn ac wedi torri. Ac mae nifer o aelodau newydd wedi ymuno felly roedd angen mwy o offerynnau hefyd.

"Mae'r amseru yn berffaith. A ninnau'n paratoi ar gyfer cyfnod prysur, llawn gweithgareddau, mae cael offerynnau o'r safon uchaf yn golygu y medrwn ni gystadlu a diddanu cynulleidfaoedd ar y lefel uchaf."

Ac mae mwy i'r stori hefyd! Mae'r hen offerynnau wedi cael eu rhoi i elusen *Brass in Africa.* Drwy'r cynllun yma, mae Callum Macdonald wedi ymweld ag Uganda i ddanfon offerynnau o'r *bandroom* ym Meaumaris. Mae tua 25 o offerynau wedi mynd yno dros y blynyddoedd diwethaf. Felly diolch o galon ichi am wneud hyn y bosib hefyd.





**CYLCHLYTHYR Y CYFEILLION GAEAF 2016**

**Cyngherddau Nadolig Seindorf Beaumaris 2016**

**Nos Wener a Sadwrn 9/10fed Rhagfyr 2016 7.30pm**

**Tocynnau ar werth: Canolfan Beaumaris**

**I archebu ffoniwch 01248 811200** ***('does dim seddi cadw)***

## Gair gan ein Cadeirydd

Mae'n anodd credu fod blwyddyn arall o greu cerddoriaeth wych yn tynnu tua'i therfyn a'r bandiau i gyd yn brysur yn paratoi at y cyngherddau Nadolig, cyngherddau carolau etc. Dwi'n gobeithio gweld nifer ohonoch chi yno.

Am y tro cyntaf ers talwm, mae'r band hefyd yn cynnal **Ffair Nadolig yn Neuadd Tref Biwmares, ddydd Sadwrn 17fed Rhagfyr o 11.00am tan 2.00pm.** Galwch draw os medrwch chi.

Yn ein Cyngerdd Haf, cyflwynwyd dwy wobr newydd er cof am ddau gyfaill arbennig. Rhoddwyd Gwobr Goffa Ruth Gwilliam i'r chwaraewr sydd wedi gwneud y cynnydd mwyaf, ac aeth Gwobr Goffa Ray Brimecombe i'r Bandiwr gorau.

Rydan ni'n gwerthfawrogi yn fawr holl gefnogaeth ffyddlon ein Cyfeillion. Dwi'n ymddiheuro fod rhai ohonoch chi wedi canfod ambell broblem yn ein cyfathrebu flwyddyn diwethaf –rydan ni wedi datrys hynny erbyn hyn.

Dymuniadau Gorau ichi i gyd

Patsy Thomas



***Chwarae ein rhan - Gwasanaeth Sul y Cofio, Beaumaris, fore Sul, 13 Tachwedd 2016***

**Gyfeillion – d'wedwch wrth eraill!**

Rydan ni bob amser yn awyddus i ddenu Cyfeillion newydd. Mae eich cyfraniad yn allweddol i lwyddiant ein cerddorion ifainc – yn help i brynu offerynnau, gwisgoedd, a phethau angenrheidiol eraill.

**Mae nifer o'n Cyfeillion bellach yn derbyn y cylchlythyr yma drwy ebost, sy'n arbed costau i ni.**

**Os hoffech ymuno â nhw, ebostiwch** friendsofbeaumarisband@gmail.com

***Os ydach chi yn awyddus i weld mwy o'n gweithgareddau, ewch i'n tudalennau Facebook – yno mae llawer o luniau a fideos o'n perfformiadau!***

***Dyddiadau pwysig yn ein Calendr 2016/17:***
Tachwedd 28 – Rali Bandiau Pres Gogledd Cymru (Rhuthun) –band ieuenctid;

Tachwedd 28 – Nadolig Fictorianaidd, Beaumaris

Rhagfyr 12 – Gwasanaeth Carolau NSPCC (Band Hyn), Eglwys Beaumaris

Rhagfyr 13 & 15 –Carolau yn Tesco, Bangor

Rhagfyr 17 – Ffair Nadolig, Neuadd y Dref, Beaumaris. Stondinau cacennau a chrefftau, a'r bandiau'n chwarae wrth gwrs!

Rhagfyr 23 – Carolau yn Neuadd Henllys (criw band hyn)

Rhagfyr 26- *Hot Pennies*, Beaumaris

Chwefror 12 – Pencampwriaeth Adloniant Ieuenctid Cenedlaethol, Blackpool

Mawrth 18/19 – Pencampwriaethau Rhanbarthol Cymru, Abertawe

Mawrth 24-27 – Taith LSW i Norwy.

……

Mae **aelodau ieuengaf** y band yn gwneud yn siwr fod y 'stafell ymarfer yn lle bywiog llawn hwyl! Fe gawson ni noson Galan Gaeaf frawychus iawn! Ond, peidiwch poeni, bydd y gwisoedd yma yn ôl yn y cwpwrdd a hetiau Sion Corn yn eu lle ar gyfer ein cyngherddau Nadolig!

